AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU

DEDDF LLEOLIAETH 2011: DATGANIAD POLISI TÂL

1.	**CYFLWYNIAD**	
1.1	Mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi ymroi i weithredu trefniadau tâl cyson a chyfiawn i weithwyr. Mae'r polisi hwn yn datgan yr egwyddorion allweddol sy'n rhaid ufuddhau iddynt wrth sefydlu lefelau tâl i weithwyr ac wrth gymeradwyo lwfansau sy'n berthnasol i dâl. Noda'r sail ar gyfer penderfynu ar gyflogau, sut y cyrhaeddir lefel cyflog, dull cynnyddu tâl a chymeradwyaeth ar gyfer taliadau camu i fyny, honoraria a diswyddo.	AT 15.12.14
1.2	Yn unol â'r Ddeddf Lleoliaeth a Chod Ymarfer Cymeradwy i Awdurdodau Lleol ar Dryloywder Data, cyhoeddir y polisi hwn, y lluosrif cyflog rhwng y gweithiwr a delir fwyaf a'r lefelau i weithwyr uwch, ar wefan y Gwasanaeth Tân ac Achub.	AT 15.12.14
1.3	Mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn bod tâl yn cynnwys pob cydnabyddiaeth gan gynnwys cyflogau, lwfansau a threuliau. Cwmpasir pob taliad o'r fath o fewn y polisi hwn neu'r polisïau eraill sy'n ymwneud â thâl a gyfeiriwyd atynt o fewn Adran 16. Nid oes disgresiwn i wneud taliadau pellach y tu hwnt i'r polisïau hyn.	AT 15.12.14
2.	**CWMPAS**	
2.1	Mae'r polisi hwn yn gymwys i holl weithwyr Awdurdod Tân ac Achub De Cymru.	AT 15.12.14
2.2	Mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn ffafrio trefniadau cydfargeinio ac yn cefnogi darpariaethau cenedlaethol cyfredol sy'n llywodraethu tâl ac amodau gwasanaeth i'r grwpiau gweithwyr dilynol: • Cynllun Amodau Gwasanaeth y Cyd Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol • Cyfansoddiad a Chynllun Amodau Gwasanaeth y Cyd Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Rheolwyr Brigâd Gwasanaethau Tân ac Achub • Y Cyd Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol (Y Llyfr Gwyrdd) • Cyfarwyddyd Sefydliad Meddygol Prydain (BMA) o fewn amrediad cyflog Meddygon Galwedigaethol (penodiad cychwynnol fel Arbenigwr) • Y Coleg Nyrsio Brenhinol - Agenda GIG ar gyfer Newid - Cyfraddau Tâl	AT 15.12.14

	• Y Cyd Bwyllgor Negodi ar gyfer Gweithwyr Crefft a Chysylltiol Awdurdodau Lleol	
2.3	Adolygir lefelau tâl yn flynyddol gan y pwyllgorau hyn ac adroddir unrhyw ddyfarniad 'cost byw' i'r Awdurdod Tân ac Achub drwy law Grwpiau Cyflogwyr. Dyfarniadau tâl a gytunwyd yn genedlaethol yw'r rhain a gyrhaeddir drwy law cydfargeinio sy'n orfodol ar Gyflogwyr, ac fe'u telir cyn gynted â phosib i staff. Hysbysir yr Awdurdod Tân yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod Tân gan Gyhoeddiadau'r Cadeirydd.	AT 15.12.14
2.4	Mae trefniadau lleol gan yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer bargeinio am dâl i weithwyr eraill o fewn cwmpas y polisi hwn a chymeradwyir unrhyw ddyfarniad 'cost byw' a gytunwyd yn lleol gan yr Awdurdod Tan ac Achub a'i gymhwyso i'w cyfradd cydnabyddiaeth. (Ymladdwyr Tân Cynorthwyol)	AT 15.12.14
3.	**CYD-DESTUN CYFREITHIOL**	
3.1	Mae Adran 38 (1) o'r Ddeddf Lleoliaeth 2011 yn gofyn bod Awdurdodau Lleol Lloegr a Chymru yn cynhyrchu Datganiad Polisi Tâl am bob blwyddyn ariannol. Cyfeiriodd y Ddeddf, fel y'i drafftiwyd yn wreiddiol at Brif Swyddogion yn unig (term sy'n cynnwys Prif Swyddogion statudol ac anstatudol ill dau, a'u Dirprwyon); ond amlinellir diwygiadau sy'n adlewyrchu pryderon ynghylch tâl isel ac sydd hefyd yn defnyddio 'Adolygiad Tâl Teg yn y Sector Cyhoeddus 2011' gan Will Hutton a gyflwynodd ofynion i gymharu'r polisïau ar roi cydnabyddiaeth i Brif Swyddogion a gweithwyr eraill, ac i amlinellu'r polisi mewn perthynas â'r rhai sy'n ennill y tâl isaf.	AT 15.12.14
3.2	Mae'r Ddeddf, fel y pasiwyd yn derfynol, yn gofyn i'r Datganiad Polisi Tâl gwmpasu agweddau anghyfartal o bolisi cydnabyddiaeth, ac mae'n ofynnol cynnwys y canlynol:- • Polisi Awdurdod Lleol ar lefel ac elfennau o gydnabyddiaeth i bob Prif Swyddog • Polisi Awdurdod Lleol ar gydnabyddiaeth i'w gweithwyr a delir lleiaf (ynghyd â'i ddiffiniad o "weithwyr a delir lleiaf" a'i resymau am fabwysiadu'r diffiniad hwnnw) • Polisi Awdurdod Lleol ar y berthynas rhwng cydnabyddiaeth ei Brif Swyddogion a Swyddogion eraill • Polisi Awdurdod Lleol ar agweddau penodol eraill o gydnabyddiaeth i Brif Swyddogion: cydnabyddiaeth ar recriwto, chwyddiadau ac ychwanegiadau i gydnabyddiaeth, defnydd taliadau sy'n berthynol i berfformiad a bonysau, taliadau terfynu a thryloywder	AT 15.12.14
3.3	Mae'r Ddeddf yn diffinio cydnabyddiaeth yn eang, nid yn unig i gynnwys tâl cyflog, ond hefyd codiannau, ffioedd, lwfansau, buddion mewn gwaith, chwyddiannau/ychwanegiadau mewn hawliau pensiwn, a thaliadau terfynu.	AT 15.12.14
3.4	At bwrpas y datganiad, ni chyfyngir y term "Prif Swyddog" i Benaethiaid Gwasanaeth Tâl neu Brif Swyddogion Statudol yn unig. Cynhwysa hefyd y sawl sy'n adrodd yn uniongyrchol	AT 15.12.14

	iddynt, boed yn statudol neu'n anstatudol ill dau. I Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru, cynhwysa hyn y Prif Swyddog Tân, y Dirprwy Brif Swyddog Tân, y Dirprwy Brif Swyddog, y Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol a'r Prif Swyddogion Cynorthwyol.	
3.5	Gofynna Ddeddf Lleoliaeth 2011 i Awdurdodau ddatblygu a chyhoeddi eu Polisi Tâl ar bob agwedd o Gydnabyddiaeth i Brif Swyddogion (gan gynnwys peidio gweithredu eu swyddi), a hynny sy'n berthynol i'r 'rhai a delir lleiaf ' o fewn yr Awdurdod, gan egluro'u Polisi ar y berthynas rhwng cydnabyddiaeth i Brif Swyddogion a grwpiau eraill.	AT 15.12.14
3.6	Wrth gyflawni'i gyfrifoldebau deddfwriaethol ar gyfer tryloywder o dan y Ddeddf Lleoliaeth uchod, mae Polisi Tâl Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn nodi pob un o'r taliadau a ddatryswyd.	AT 15.12.14
4.	**ADEILADWAITH TÂL PRIF SWYDDOGION**	
4.1	Deliodd cylchlythyr y Cydgyngor Cenedlaethol (rhif cyfeirnod 28/05/04) yn ddyddiedig yr 28ain o Fai 2005 â setliad cyflog y Prif Swyddogion ac atgyfnerthodd argymhelliad blaenorol y dylid gweithredu adolygiad lleol o lefelau tâl i uwch staff.	AT 15.12.14
4.2	Mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn cyflogi Prif Swyddogion o dan delerau ac amodau'r Cyd Gyngor Cenedlaethol a ymgorfforwyd o fewn eu cytundebau. Mae'r Cyd Bwyllgorau Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion Tân / Prif Swyddogion yn negodi ar gynnydd mewn tâl cost byw blynyddol yn genedlaethol (y DU) ar gyfer y grŵp hwn, a phenderfynir unrhyw ddyfarniad o'r un fath ar y sail hon. Mae gan Brif Swyddogion Tân / Brif Swyddogion a gyflogir o dan delerau ac amodau'r Cyd Gyngor Cenedlaethol hawl cytundebol i unrhyw godiadau cyflog a bennwyd gan y Cyd Gyngor Cenedlaethol a bydd yr Awdurdod Tân ac Achub hwn felly'n talu'r rhain wrth iddynt godi yn unol â gofynion cytundebol cyfredol.	AT 12.10.15
4.3	Yn ddiweddar, penderfynodd yr Awdurdod Tân ac Achub y dylid aseinio'r Pwyllgor AD a Chydraddoldeb i ystyried cydnabyddiaeth Prif Swyddogion ac adrodd eu canfyddiadau i'r Awdurdod Tân ac Achub llawn i'w penderfynu'n derfynol.	AT 15.12.14

4.4	Adnabyddir matrics cydnabyddiaeth Tîm Arwain Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub De Cymru fel ei fod yn ffurfio:						AT 14.03.15
	Teitl :	**Canran dybiannol o gyflog y PST**		**Maint Digolledu**	**Canran Anweithredol**	**Canran o wahaniaethau gwirioneddol ✝**	AT 14.03.15
	Prif Swyddog Tân	100%					
	Naill ai'r Dirprwy Brif Swyddog Tân	80%			100%		
	Neu'r Dirprwy Brif Swyddog				**95%**	**95.189%**	
	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	**75%**	Pwynt 4	Gweithredol	100%	**75.149%**	
	Prif Swyddog Cynorthwyol		Pwynt 3	Ymateb Strategol	**95%**	**95%**	
			Pwynt 2	Parhad Busnes	82.5%		
			Pwynt 1	Gwaelodlin	70%		
	Trysorydd*			Gwaelodlin	**60%**	**58.48%**	
	* Adrodda'r Trysorydd yn uniongyrchol at yr ATA, nid yw'n dal unrhyw gyfrifoldeb o ran cyfarwyddiaeth ac fe'i cyflogir am 100 diwrnod y flwyddyn.						AT 14.03.15
	✝Caiff y gwahaniaeth rhwng y ganran dybiannol a'r ganran wirioneddol ei fonitro'n flynyddol.						AT 14.03.15

4.5	Canfyddodd yr Awdurdod Tân ac Achub, (rhif cyfeirnod Munud 156 Mai 2009), y byddai bandiau cyflog y Prif Swyddog Cynorthwyol di-wisg yn seiliedig ar gymhwyster ac fe'u penderfynir mewn cymesuredd uniongyrchol â gweithgareddau'r swydd.	AT 15.12.14
4.6	I gwrdd ag anghenion gweithredol y Gwasanaeth, roedd angen i'r strwythur cydnabyddiaeth dilynol adlewyrchu'r ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth grymus a hyblyg.	AT 15.12.14
4.7	Penderfynodd yr Awdurdod Tân ac Achub (rhif cyfeirnod Munud 67 Medi 2009), y dylid ffurfio'r Uwch Dîm Arwain o bum cyfarwyddwr. Yn ychwanegol, adrodda'r Trysorydd yn uniongyrchol at yr Awdurdod Tan ac Achub, ond nid yw'n dal unrhyw gyfrifoldeb cyfarwyddiaeth.	AT 15.12.14
4.8	Penderfynodd yr Awdurdod Tan ac Achub, (Rhagfyr 2010), i hysbysebu swydd y Dirprwy Brif Swyddog ynghyd ag agor y broses i geisiadau gan ymgeiswyr gwisg a di-wisg ill dau, gyda'r gydnabyddiaeth i'r Dirprwy Brif	AT 15.12.14

	Swyddog yn cael ei osod yn 95% o gydnabyddiaeth Dirprwy Brif Swyddog Tân.	
4.9	Ailymwelodd yr Awdurdod Tân ac Achub ag amrywiannau canran perthnasol ar lefelau Dirprwy a Chynorthwyol ac yn Chwefror 2011, penderfynwyd ymhellach y dylid cyflwyno'r teitlau a'r trefniadau graddio a adnabuwyd ym Mharagraff 4.4.	AT 15.12.14
4.10	Sefydlwyd gwaelodlin cydnabyddiaeth y Prif Swyddog Cynorthwyol ar 70% o lefel y raddfa lawn i Brif Swyddog Tân Cynorthwyol ac mae'n destun enillion ychwanegol. Nid oes hawl awtomatig i lefel sy'n berthynol i gymhwyster gan fydd yr holl enillion yn destun tystiolaeth cyn deddfu.	AT 15.12.14
4.11	I Brif Swyddogion, pennir cydnabyddiaeth ar benodiad gan yr Awdurdod Tan ac Achub llawn. Nid yw Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n talu tâl sy'n berthynol i berfformiad neu fonysau ac ni chynigir lwfansau ychwanegol neu daliadau chwyddo i gyflog neu bensiwn pan y'i cyflogir. Pan fyddant yn rhoi'r gorau i'w dyletswyddau, ni thelir unrhyw daliadau ychwanegol heblaw am y rhai hynny sy'n ddyledus at bwrpasau cyflog neu daliadau a wnaed i'r unigolyn yn unol â'r cynllun pensiwn priodol ar adeg ymddeol.	AT 15.12.14
4.12	Cyhoeddir gwybodaeth am gydnabyddiaeth Prif Swyddogion fel rhan o ddatganiad ariannol diwedd blwyddyn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.	AT 15.12.14
4.13	Yn unol â'r Datganiad Polisi Tâl hwn, dylid adolygu lefelau cydnabyddiaeth Prif Swyddogion yn flynyddol fel rhan o ymrwymiad Awdurdod Tân ac Achub De Cymru i gynnal strwythur graddio a chydnabyddiaeth gystadleuol**.** Yn absenoldeb cyfarwyddyd cynnydd 'costau byw' a bennir yn genedlaethol, efallai bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn adnabod a chytuno ar raddfa leol a dyddiad gweithredu. Bydd y Pwyllgor AD a Chyfle Cyfartal yn gyfrifol am adolygu'r sefyllfa hon, ac am wneud argymhellion i'r Awdurdod Tan ac Achub llawn. Dim ond yr Awdurdod Tân ac Achub yn unig all wneud penderfyniad terfynol mewn perthynas â chyfraddau cydnabyddiaeth i Brif Swyddogion, gan gynnwys dyfarniadau costau byw blynyddol.	AT 15.12.14
4.14	Ar y 27ain o Fawrth 2017, derbyniodd y Pwyllgor AD a Chydraddoldeb adroddiad yn nodi terfynu'r cyd-drefniadau ar gyfer darparu swydd Uwch Feddyg Iechyd Galwedigaethol ar y cyd. Penderfynwyd byddai GTADC yn unig yn cyflogi'r UFIG ar sail rhan amser. Bydd cydnabyddiaeth yn unol â chanllawiau Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA) o fewn amrediad cyflog Meddyg Galwedigaethol (penodiad cychwynnol fel Arbenigwr).	AT 15.12.14
5.	**RHEOLWYR ARDAL (4 SWYDD) - CYTUNDEB LLEOL**	
5.1	Yn dilyn adolygiad o rota sefydlu a gweithredol i Reolwyr Ardal, penderfynwyd y dylid lleihau nifer y swyddi o 6 i 4 o fis Awst 2009, gyda symudiad at rota system ddyletswydd barhaol.	AT 15.12.14

5.2	Cytunwyd cynllun cydnabyddiaeth y grŵp yma o staff yn lleol fel a ganlyn: Cyflog Rheolwr Ardal B, yn unol â'r cyflog Cydgyngor Cenedlaethol i aelodau'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn ôl graddfeydd cyflog a gytunwyd ar gyfer gweithwyr gwisg, ynghyd ag 20% o lwfans dyletswydd hyblyg, a 14% taliad system ddyletswydd barhaol.	AT 15.12.14
6.	**PENAETHIAID GWASANAETHAU DI-WISG (4 SWYDD)**	
6.1	Penderfynir cydnabyddiaeth Penaethiaid Gwasanaethau ar bwynt sydd uwchben cyfraddau cyflog y Cyd Gyngor Cenedlaethol (Y Cyd-Gyngor) ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol ac fe'u nodir fel canran o waelodlin gyflog Prif Swyddog Cynorthwyol.	AT 15.12.14
7.	**HOLL STAFF ERAILL**	
7.1	Cwmpasir pob aelod staff arall a gyflogir gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru o fewn categorïau Staff Llawn Amser, Dyletswydd yn ôl y Galw, Rheoli a Chynnal ac, o'r herwydd, selir eu cydnabyddiaeth ar gynlluniau cyflog perthnasol a gytunwyd â'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol fel yr adnabuwyd ym mharagraff 2.2.	AT 15.12.14
7.2	Yn gyffredinol, cwmpasir telerau ac amodau cyflogaeth yr holl staff gan cyd-drefniadau cyfredol a negodwyd â'r undebau llafur hynny a adnabuwyd gan yr Awdurdod Tan ac Achub at bwrpas cydfargeinio. Corfforwyd y trefniadau hyn yng Nghynllun Amodau Gwaith y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ac fe'u hatodir gan reolau, cofnodion a Dogfennau Gweithredol, Polisi a Gweithdrefnol yr Awdurdod Tân ac Achub a chyfarwyddiadau eraill, fel y'u diwygiwyd, ynghyd â pha bynnag ddeddfwriaeth cyfraith gyflogaeth arall fydd yn gymwys o dro i dro.	AT 15.12.14
7.3	Y "cyflog isaf" a ddefnyddiwyd gan yr Awdurdod Tan ac Achub yw pwynt 6 ar golofn gyflog y Cyd Gyngor Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau Llywodraeth Leol (Y Llyfr Gwyrdd).	AT 15.12.14
7.4	Mae archwiliad o'r lefelau tâl cyfredol o fewn yr Awdurdod yn galluogi'r Awdurdod i adnabod y lluosogydd rhwng y pwynt tâl isaf a phwynt tâl y Prif Swyddog Tân. Y lluosrif rhwng y gweithiwr (llawn amser cyfartalog) a delir lleiaf a'r Prif Swyddog Tân yw 1:8.59	AT 15.12.14
8.	**LEFELAU AWDURDODAETH DDIRPRWYEDIG**	
8.1	Bydd unrhyw amrywiad o ran tâl a nodwyd o fewn y polisi hwn yn amodol ar gymeradwyaeth priodol, fel y disgrifiwyd isod.	AT 15.12.14
8.2	Dirprwyir penderfyniadau ar dâl a nodwyd o fewn y polisi hwn fel a ganlyn:	AT 15.12.14

PENDERFYNIAD	LEFEL AWDURDOD DIRPRWYEDIG
Tâl cychwynnol (uwchben y gyfradd leiafsymiol), ond heb gynnwys, y Prif Swyddog Cynorthwyol (a'r lefel gyfatebol)	Prif Swyddog Cynorthwyol (Fel y'i hadnabuwyd o fewn Rheolau Sefydlog yr Awdurdod Tân ac Achub)
Tâl cychwynnol lefel Prif Swyddog Cynorthwyol (a chyfatebol) ac uwch	Awdurdodaeth lwyr i gytuno ar strwythur sefydliadol uwch reolwyr gan gynnwys graddfeydd a bandiau cyflog. Panel penodi i gytuno a chymeradwyo cyflogau gwirioneddol ar adeg penodi o fewn y strwythur rheoli a gytunwyd gan yr Awdurdodaeth lawn uchod.
Penodiad i swydd graddfa uwch (uwchben y gyfradd leiafsymiol) hyd at, ond heb gynnwys, lefel Prif Swyddog Cynorthwyol.	Prif Swyddog Cynorthwyol neu Bennaeth Gwasanaethau AD dirprwyedig.
Taliad camu i fyny ar lefel Prif Swyddog Cynorthwyol lle bo'r pecyn cyflog cyfansymiol yn llai na £100,000. Taliadau camu i fyny am swyddi lle bo'r pecyn cyflog cyfansymiol yn fwy na £100,000.	Prif Swyddog Tân Yr Awdurdod Tân ac Achub Llawn

8.3	Mae Adnoddau Dynol yn gyfrifol am oruchwylio unrhyw benderfyniadau tâl er mwyn sicrhau y gwnaethpwyd hwy yn unol â'r lefelau awdurdodaeth dirprwyiaethol ac yn gydymffurfiol â'r amodau o fewn y Polisi a deddfwriaeth Gyflogau.	AT 15.12.14
8.4	Ni ellir dirprwyo dirprwyaethau ar gyfer penderfyniadau ar dâl islaw'r lefelau a amlinellwyd o fewn y tabl uchod.	AT 15.12.14
9.	**PERTHYNOLEDD TÂL O FEWN YR AWDURDOD TAN AC ACHUB**	
9.1	Cyflogir y personau hynny a delir isaf o dan Gytundeb Cyflogaeth o fewn yr Awdurdod Tan ac Achub llawn amser [37 awr] ar gyflogau cyfansymiol yn unol â'r pwynt golofn gyflog leiafsymiol sydd mewn defnydd o fewn strwythur graddio'r Awdurdod Tan ac Achub yn gyfredol. Fel y mae ar y 1af o Ebrill 2018, £15,014 y flwyddyn yw hwn. Yn achlysurol, mae'r Awdurdod Tan ac Achub yn defnyddio Prentisiaid [a mathau eraill o Hyfforddeion] sydd heb eu cynnwys o fewn diffiniad 'gweithwyr isaf eu cyflog'.	AT 15.12.14
9.2	Mae'r cyfarwyddyd statudol o dan y Ddeddf Lleoliaeth yn cymeradwyo'r defnydd o dâl cyfansawdd fel modd o fesur y berthynas rhwng cyfraddau tâl ar draws y gweithlu a chyfraddau uwch reolwyr.	AT 15.12.14
9.3	Mae'r Awdurdod yn cynnig cydnabyddiaeth i bersonél parhaol uwchben y Cyflog Byw Cenedlaethol.	AT 15.12.14

10.	**CYFLOG CYCHWYNNOL**	
10.1	Yn arferol, penodir gweithwyr a benodwyd i swyddi o fewn yr Awdurdod i bwynt lleiafsymiol y gyfradd dâl ar gyfer y swydd.	AT 15.12.14
10.2	Mewn rhai amgylchiadau, gall fod yn briodol i benodi i bwynt sy'n uwch yn y gyfradd dâl. Gall hwn godi pan fydd yr ymgeisydd dewisol ar gyfer y swydd ar fin derbyn neu wedi derbyn cyflog ar lefel sy'n uwch na'r gyfradd leiafsymiol.	AT 15.12.14
10.3	Rhaid i Banel Penodi sy'n dymuno penodi ymgeisydd hyd at, ond heb gynnwys lefel Prif Swyddog Cynorthwyol, ar gyflog sydd uwchlaw'r gyfradd leiafsymiol, ceisio cymeradwyaeth lwyr gan y Prif Swyddog Cynorthwyol, gan amlinellu'r achos fusnes. Gall rheolwr chwilio am gyngor gan yr Adran Adnoddau Dynol, pe bai angen.	AT 15.12.14
10.4	Dylai'r achos fusnes ymgorffori'r canlynol: • cyflog cyfredol neu fwyaf diweddar yr ymgeisydd dewisol; • amrediad cyflog y swydd a benodwyd iddo/iddi; canlyniad asesiad cyfweliad yr ymgeisydd dewisol a phwyntiau sgôr y cyfwelwyr eraill; • buddion i'r gwasanaeth a chwsmeriaid o benodi'r ymgeisydd dewisol; • effaith bosib ar ddeiliad eraill y swydd o benodi'r ymgeisydd dewisol ar lefel sy'n uwch na'r gyfradd leiafsymiol; • cadarnhad y caiff costau gweithwyr uwch eu cwrdd gan y gyllideb gwasanaeth gyfredol.	AT 15.12.14
10.5	Bydd y Prif Swyddog Cynorthwyol: • yn ystyried y cais a gyflwynwyd gan y rheolwr recriwtio; • yn trafod eu penderfyniad arfaethedig â Phennaeth Adnoddau Dynol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag amodau'r polisi tâl; • yn ymateb i'r panel penodi; • yn cwblhau'r awdurdodaeth gyflogres berthnasol fel y gellir cwblhau'r broses recriwtio.	AT 15.12.14
10.6	Mae penderfyniad y Prif Swyddog Cynorthwyol yn derfynol.	AT 15.12.14
10.7	Mae datrysiad gan yr Awdurdod Tan ac Achub llawn yn ofynnol i bob ail-strwythuriad sefydliadol a graddio a chyflogau cysylltiol.	AT 15.12.14
11.	**AIL GYFLOGI CYN-WEITHWYR**	
11.1	Mae modd i gyn-weithwyr dderbyn ail gyflogaeth gan yr Awdurdod Tan ac Achub, ond mae sawl ffactor sy'n penderfynu.	AT 15.12.14
11.2	Penderfynodd yr Awdurdod Tân ac Achub cyflwyno cais i atal cyflogau/pensiynau am gyfnod penodedig er mwyn cynnal sgiliau, arbenigedd a gwybodaeth arbenigol.	AT 15.12.14
11.3	Ymhellach, penderfynodd yr Awdurdod Tan ac Achub	AT

	gyfeirio ceisiadau am atal cyflogau/pensiynau gan gyfarwyddwyr nôl i'r Awdurdod Tan ac Achub llawn i'w hystyried ar sail anghenion busnes.	15.12.14
11.4	Pan fydd rhywun yn ymddeol, neu pan y'i rhyddheir ar sail diswyddo gwirfoddol neu orfodol, ni fydd disgwyliad y byddai'n cael ei ail gyflogi naill ai fel gweithiwr neu fel gweithiwr asiantaeth/contractwr yn yr un rôl neu mewn rôl debyg neu ardal gwasanaeth lle y'i diswyddwyd. Gall gweithred o'r fath ddynodi nad oedd y penderfyniad gwreiddiol ynghylch diswyddo gwirodol neu orfodol yn benderfyniad gwerth am arian i'r trethdalwr. Felly, bydd rhaid cyfiawnhau unrhyw eithriadau i'r dull hwn sy'n arwain at ail-ymgysylltu gweithwyr a ddiswyddwyd yn wirfoddol neu'n orfodol i sicrhau y digwyddodd amodau gwreiddiol y diswyddiad, h.y. terfynu gwaith.	AT 15.12.14
11.5	Bydd rhaid i reolwr sy'n dymuno recriwtio cyn gweithwyr neu gaffael gweithwyr a ddiswyddwyd yn flaenorol ddarparu achos busnes i wneud hyn a cheisio cymeradwyaeth yr Awdurdod Tan ac Achub neu Brif Swyddog Cynorthwyol dynodedig.	AT 15.12.14
11.6	Pan ail gyflogir pensiynwr Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu Wasanaeth Tân ac Achub (ar delerau ac amodau'r llyfr Llwyd) o fewn y sector Llywodraeth Leol, a lle bydd yr enillion a'r pensiwn cyfunol yn rhagori cyflog terfynol y gyflogaeth wreiddiol yn dilyn addasu ar gyfer chwyddiant, atelir y pensiwn.	AT 15.12.14
12.	**CAMU I FYNY I SWYDD GRADDFA UWCH**	
12.1	Mae camu i fyny'n briodol pan ddaw swydd graddfa uwch ar gael o ganlyniad i gyfnod mamolaeth, absenoldeb drwy salwch ac ati. Rhoddir taliadau camu i fyny i weithwyr sy'n cytuno i gyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau llawn neu rannol swydd gyfradd uwch. Rhaid i'r swydd gyfradd uwch fod yn rhan o sefydliad staffio cytunedig yr Awdurdod.	AT 15.12.14
12.2	Telir y lwfans pan fydd gweithiwr yn cyflawni gwaith y swydd gyfradd uwch am gyfnod parhaol am unrhyw reswm heblaw am wyliau blynyddol.	AT 15.12.14
12.3	Bydd gweithwyr sy'n ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau llawn swydd graddfa uwch yn derbyn y cyflog fyddai'n gymwys pe baent yn cael eu dyrchafu i swydd gyfradd uwch.	AT 15.12.14
12.4	Bydd gweithwyr sy'n ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau swydd gyfradd uwch yn derbyn lwfans camu i fyny rhannol. Er enghraifft, os yw'r gweithiwr yn cwmpasu 20% o ddyletswyddau a chyfrifoldebau graddfa uwch, byddant yn derbyn 20% o'r raddfa wahaniaethol fel lwfans camu i fyny.	AT 15.12.14
12.5	Lle bydd dim ond un neu ddau weithiwr yn gallu "camu i fyny" i'r swydd raddfa uwch, mae'n gymharol hawdd adnabod deilydd y swydd/deiliaid y swyddi y gellir gofyn iddynt gyflawni'r swydd raddfa uwch yn rhesymol. Lle bydd nifer fawr o weithwyr a all fod mewn sefyllfa i "gamu i fyny"	AT 15.12.14

	i swydd graddfa uwch, efallai bydd angen hysbysebu'r swydd wag dros dro neu drefniant camu i fyny.	
12.6	Rhaid i reolwr sy'n dymuno defnyddio trefniadau camu i fyny llawn neu rannol geisio cymeradwyaeth gan y Prif Swyddog Cynorthwyol (neu Bennaeth Adnoddau Dynol, yn dibynnu ar lefel y swydd). Yn ychwanegol, efallai bydd rheolwr yn chwilio am gyfarwyddyd gan Adnoddau Dynol, pe bai angen.	AT 15.12.14
12.7	Bydd y swyddog cymeradwyo: • yn ystyried y cais a gyflwynir drwy ofyn i'r rheolwr; • drafod eu penderfyniad arfaethedig o fewn yr Adran Adnoddau Dynol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r polisi tâl; • ddarparu ymateb i'r rheolwr sy'n cynnig cais, fel arfer o fewn 10 diwrnod gwaith; • gwblhau a hysbysu'r Adran Gyflogres os gweithredir amrywiad tâl.	AT 15.12.14
12.8	Rhaid i unrhyw drefniadau camu i fyny ar lefel Prif Swyddog Cynorthwyol dderbyn cymeradwyaeth y Prif Swyddog Tân. Hefyd, rhaid i unrhyw drefniadau camu i fyny am swyddi â phecyn cydnabyddiaeth o £100,000 neu uwch dderbyn cymeradwyaeth yr Awdurdod Tan ac Achub llawn. Yn y ddwy achos, rhaid bod y gyflog o fewn y strwythur sefydliadol a gytunwyd gan yr Awdurdod Tan ac Achub llawn a'i gytuno'n llawn.	AT 15.12.14
12.9	Dileer lwfansau camu i fyny unwaith y peidia'r angen am y trefniadau camu i fyny. Mae rheolwr yn gyfrifol am sicrhau bydd gweithwyr yn derbyn rhybudd digonol o hwn.	AT 15.12.14
13.	**TALIADAU HONORARIWM**	
13.1	Taliad **unigol** yw taliad honorariwm. Fe'i gwneir dim ond lle bydd tystiolaeth glir i gefnogi'r amgylchiadau dilynol: • lle bydd gweithiwr yn cyflawni gwaith ychwanegol sylweddol y tu hwnt i'w cyfrifoldebau arferol; • lle bydd gweithiwr yn cyflawni swm sylweddol o waith y tu hwnt i'w oriau cytunedig, ond nad yw'n gymwys ar gyfer taliadau goramser o ganlyniad i'w safle ar raddfa gyflog.	AT 15.12.14
13.2	**Ni ellir** gwneud taliad honorariwm o dan yr amgylchiadau dilynol: • Lle bydd y gweithiwr yn cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau swydd graddfa uwch yn llawn neu'n rannol, pan ddylid gwneud taliad camu i fyny; • lle newidiodd dyletswyddau a chyfrifoldebau parhaol y swydd i'r graddau y dylid ail gyflwyno'r swydd i'w gwerthuso; • lle bydd y gwaith ychwanegol a ymgymerwyd yn gymesurol â disgrifiad swydd/graddfa gyflog gyfredol y gweithiwr.	AT 15.12.14
13.3	Os yw taliad honoraria yn arwain at becyn cydnabyddiaeth sy'n rhagori ar £100,000, rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan y Prif Swyddog Tân a Chadeirydd Awdurdod Tan ac	AT 15.12.14

	Achub, wedi cymryd cyngor gan y Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Pobl neu'u cynrychiolydd enwebedig.	
13.4	Taliadau un tro yw taliadau honorariwm ac fe'u telir ar sail pro-rata i weithwyr rhan amser, yn gymesurol â'u horiau gwaith.	AT 15.12.14
13.5	Bydd taliadau honorariwm ar bwynt colofn gwahaniaethol yn amodol ar unrhyw gynnydd mewn cost byw a gymhwyswyd gan yr Awdurdod Tan ac Achub.	AT 15.12.14
13.6	Mae taliadau honorariwm yn bensiynadwy.	AT 15.12.14
13.7	Crynhoir ac adolygir gwybodaeth ar bob taliad honorariwm yn flynyddol gan Adnoddau Dynol a'u hadrodd i'r Pwyllgor AD a Chyfle Cyfartal at ddibenion monitro .	AT 15.12.14
14.	**DISWYDDIAD**	
14.1	Wrth derfynu eich cyflogaeth â'r Awdurdod Tan ac Achub, telir taliadau cytundebol i weithwyr sy'n ddyledus o dan delerau eu cytundeb cyflogaeth. Mewn achos o ddiswyddo, telir tâl diswyddo yn unol â disgresiwn y cyflogwr fel y nodwyd o fewn y Polisi Diogelu Cyflogaeth a gyhoeddwyd gan Awdurdod Tan ac Achub ac a ddelir gan Adran Pensiynau Rhondda Cynon Taf.	AT 15.12.14
14.2	Rhaid adrodd pob achos fusnes ar gyfer diswyddiadau, ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau i'r Awdurdod Tan ac Achub i'w craffu cyn bydd yr Awdurdod yn cynnig datrysiad i naill ai ei dderbyn neu ei wrthod.	AT 15.12.14
14.3	Rheoleiddiad 30(6), “Ymddeoliad Hyblyg” - Disgresiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Cymhwysir y disgresiwn hwn, ar amod bydd y Prif Swyddog Tân a'r Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Pobl yn cytuno i'r cais wedi ystyried y costau a'r buddion i'r sefydliad. Bydd gofyniad ar y gweithiwr i leihau ei oriau gwaith gan leiafswm o 40%. Bydd unrhyw ostyngiadau actwaraidd mewn buddion pensiwn yn gymwys.	AT 14.03.15
	Bydd yr Awdurdod Tan ac Achub / Pwyllgor AD a Chydraddoldeb yn derbyn adroddiadau i gydlofnodi penderfyniadau'r Prif Swyddog Tân a'r Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Pobl.	AT 14.03.15
15.	**GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB GWISG**	
15.1	Telir pob gweithiwr i'r Gwasanaeth Tân ac Achub, hyd at, ac i gynnwys Rheolwyr Ardal yn unol â Chynllun Amodau Gwasanaeth y Cydgyngor Cenedlaethol ar Wasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol. Telerau ac amodau a gytunwyd yn genedlaethol yw'r rhain (y llyfr 'Llwyd').	AT 15.12.14
15.2	O dan y Cyfansoddiad a Chynllun Cydgyngor Cenedlaethol Rheolwyr Brigâd Gwasanaethau Tân ac Achub, (y llyfr ‘Aur’), bydd gan y Prif Swyddog Tân a Rheolwyr Brigâd drefniadau tâl ar wahân mewn lle.	AT 15.12.14

	Adolygir cyflog y Prif Swyddog Tân cyn y gwnaed penodiad newydd ac ystyrir nifer o ffactorau yn ystod y broses. Crynhoir y rhain isod: • Lleiafswm cyflog perthnasol Prif Swyddog Tân a'r data meincnodol mwyaf perthnasol; • Perthynas cyflog cyfredol i'r meincnod cenedlaethol; • Unrhyw ffactorau lleol sylweddol nad sy'n gyffredin i Awdurdodau Tân ac Achub o faint a math tebyg; • Gwybodaeth gymharol ar gyflogau o fewn awdurdodau tebyg eraill; • Strwythurau uwch reolwyr a maint y tîm rheoli o'i gymharu â rhai awdurdodau tân ac achub eraill o faint a math tebyg; • Maint cymharol bob swydd; a • Cyfrifoldeb rheoli digwyddiadau a'r gofyniad i ddarparu cwmpasiad gweithredol o fewn yr awdurdod cyflogi a thu hwnt.	
15.3	Gellir adolygu Rheolwyr Gwasanaeth Tân ac Achub eraill sy'n cael eu talu fel canran o gyflog Prif Swyddog Tân ar yr un adeg ag y bydd adolygiad i gyflog y Prif Swyddog Tân yn cymryd lle.	AT 15.12.14
15.4	Am adolygiad, coladir y meincnodi a'r dadansoddiad cysylltiol gan yr Adran Adnoddau Dynol ac unrhyw argymhellion a gyflwynwyd i'r Pwyllgor AD a Chyfle Cyfartal cyn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Tan ac Achub llawn am benderfyniad terfynol.	AT 15.12.14
16.	**POLISÏAU ERAILL SY'N YMWNEUD Â THÂL**	
16.1	Meysydd polisi eraill sy'n berthynol i gyflogau sy'n gymwys i bob gweithiwr yw: • Teithio a Threuliau Busnes • Treuliau Adleoli • Delio â diswyddiadau • Ymddeoliad Cynnar - gan gynnwys diswyddiadau, ymddeoliad hyblyg ac effeithlonrwydd gwasanaeth • Pensiynau - Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Cynllun Pensiwn Ymladdwyr Tân 1992, Y Cynllun Pensiwn Newydd i Ymladdwyr Tân 2007 a'r Cynllun Pensiwn i Ymladdwyr Tân (Cymru) 2015	AT 14.03.16
17.	**TELERAU AC AMODAU ERAILL**	
17.1	Diffinia'r Ddeddf gydnabyddiaeth yn eang, i gynnwys nid yn unig tâl cyflog, ond hefyd codiannau, ffioedd, lwfansau, buddion mewn nwyddau, cynnydd/taliadau chwyddo o ran hawliau pensiwn, a thaliadau terfyniad. (Cyf. Adran 4. Adeiladwaith Taliadau Prif Swyddogion).	AT 15.12.14
17.2	Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cyfrannu at daliadau cerbydau les i Uwch Aelodau ei staff sy'n dewis cymryd rhan yng nghynllun cerbyd les y Gwasanaeth.	AT 15.12.14
17.3	Mae lefelau'r cyfraniadau yn gwahaniaethu ac yn ddibynnol ar swyddi penodol. Mae'r cyfraniadau	AT 15.12.14

	Gwasanaeth hyn yn ffurfio rhywfaint yn unig o gost y cerbyd les, gyda'r mwyafrif yn cael ei dalu gan unigolion.	
17.4	Cyflawnodd yr Awdurdod Tân ac Achub fframwaith strategol i sicrhau yr adnabyddodd y Gwasanaeth ei swyddi allweddol ac yr ystyriodd faterion o hydwythedd wrth gefnogi darpariaeth cynllunio gweithlu Gwasanaeth Tân ac Achub. Y nod yw defnyddio dull strwythuredig i adnabod safleoedd critigol a datblygu rheolwyr a staff o fewn y sefydliad sydd â photensial uchel a llywio datblygiad a chynnydd eu gyrfaoedd i gyflawni'r swyddi hyn. Cynllunio am olyniaeth yw'r broses systematig lle bydd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn adnabod, asesu ac yn datblygu'u gweithwyr i sicrhau eu bod yn barod i ymgymryd â rolau allweddol o fewn y Gwasanaeth. Dull strategol ydyw i sicrhau bydd y dalent a'r sgiliau angenrheidiol ar gael pan fydd ei angen ac y cynhelir gwybodaeth a gallu hanfodol wrth i weithwyr adael swyddi critigol.	14.03.16
18.	**MONITRO AC ADOLYGU**	
18.1	Bydd y Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Pobl yn adolygu cymhwysedd y polisi hwn yn flynyddol.	AT 15.12.14
18.2	Yna, cyflwynir y Polisi Tâl i'r Pwyllgor AD a Chyfle Cyfartal i'w adolygu cyn y'i cyflwynir i'r Awdurdod Tan ac Achub llawn i'w benderfynu'n derfynol yn flynyddol ym mis Mawrth.	AT 15.12.14
18.3	Bydd unrhyw newid neu wyriad o'r polisi hwn y tu hwnt i adolygiad o'r fath yn gofyn am gymeradwyaeth yr Awdurdod Tan ac Achub llawn.	AT 15.12.14
19.	**CYFRADDAU CYFLOG**	
19.1	Matrics Cyflogau Prif Swyddogion a Phenaethiaid Gwasanaethau Awdurdod Tân ac Achub De Cymru - Atodiad 1	AT 15.12.14
19.2	Matrics Cyflogau'r Cyd Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Awdurdodau Lleol - Atodiad 2	AT 15.12.14
19.3	Strwythur Taliadau Rhan Amser Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru - Atodiad 3.	AT 15.12.14
19.4	Matrics Cyflogau'r Cyd Gyngor Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau Llywodraeth Leol - Atodiad 4.	AT 15.12.14
19.5	Cyd Bwyllgor Negodi ar gyfer Gweithwyr Crefft a Chysylltiol Awdurdodau Lleol - Atodiad 5	AT 15.12.14
19.6	Awdurdod Tân ac Achub De Cymru - Ymladdwyr Tân Cynorthwyol	AT 21.9.15

MATRICS CYFLOGAU PRIF SWYDDOGION A PHENAETHIAID GWASANAETHAU AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU

	Cyflog Ll Am	Gwir Gyflog
CYFARWYDDWYR (5 swydd)		
Prif Swyddog Tân	£129,820	£129,820
Dirprwy Brif Swyddog Tân (80% Prif Swyddog Tân)	*£103,856*	-
Dirprwy Brif Swyddog *(95.18% - Dirprwy Brif Swyddog Tân)*	£98,859	£98,859
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol - Gwasanaethau Technegol *(75.14% Prif Swyddog Tân)*	£97,558	£97,558
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol - Darparu Gwasanaethau *(75.14% PST)*	£97,558	£97,558
Prif Swyddog Cynorthwyol - Gwasanaethau Pobl *(95% - Prif Swyddog Tân Cynorthwyol)*	£92,681	-
Prif Swyddog Cynorthwyol (82.5% - Prif Swyddog Tân Cynorthwyol)	*£76,461*	-
Prif Swyddog Cynorthwyol (70% - Prif Swyddog Tân Cynorthwyol)	*£64,877*	-
SWYDDOG STATUDOL (1 swydd)		
Trysorydd*(38.45%)*	£57,053	£25,890
* Mae'r Trysorydd yn adrodd yn uniongyrchol i'r ATA, nid oes ganddo gyfrifoldeb cyfarwyddiaeth ac fe'i cyflogir am 100 diwrnod y flwyddyn.		
PENAETHIAID GWASANAETHAU (8 swydd)		
Pennaeth Gwasanaethau – Cyllid	£51,217	£51,217
Pennaeth Gwasanaethau – Corfforaethol	£51,217	£51,217
Pennaeth Gwasanaethau – AD	£51,217	£51,217
Pennaeth Gwasanaethau - TGCh	£51,217	£51,217
Rheolwr Ardal - Gweithrediadau †	£78,179	£71,328
Rheolwr Ardal - Pennaeth Rheoli Risg Gweithredol †	£78,179	£71,328
Rheolwr Ardal - Tîm LlED†	£78,179	£71,328
Rheolwr Ardal - Pennaeth Lleihau Risg †	£78,179	£78,179
Rheolwr Ardal - Hyfforddi a Datblygu †	£78,179	£78,179

† *Rheolwr Ardal - Gwaelodlin Gyflog £56,685 20% lwfans dyletswydd hyblyg £11,337 14% cyflog system ddyletswydd barhaol £9,523 CPD £634*

† Yn cynnwys Cynllun amodau gwasanaeth y Cyd Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol, 1af o Orffennaf 2016

MEDDYGOL (1 swydd)		
Meddyg Iechyd Galwedigaethol*50%	£101,451	£50,725

* Cyfarwyddyd Sefydliad Meddygol Prydain (BMA) (o fewn penodiad cychwynnol Meddyg Galwedigaethol Ymgynghorol)

MATRICS CYFLOGAU'R CYD GYNGOR I WASANAETHAU TÂN AC ACHUB AWDURDODAU LLEOL

ROLAU YMLADD TÂN - CYFRADDAU CYFLOG O'R 1af O ORFFENNAF 2017

	Sylfaenol blynyddol £	Cyfradd sylfaenol yn ôl yr awr £	Cyfradd goramser £
Ymladdwr Tân			
Hyfforddai	22,459	10.26	15.39
Datblygu	23,394	10.68	16.02
Cymwys	29,934	13.67	20.51
Rheolwr Criw			
Datblygu	31,816	14.53	21.80
Cymwys	33,187	15.15	22.73
Rheolwr Gwylfa			
Datblygu	33,905	15.48	23.22
Cymwys A	34,847	15.91	23.87
Cymwys B	37,112	16.95	25.43
Rheolwr Gorsaf			
Datblygu	38,602	17.63	26.45
Cymwys A	39,761	18.16	27.24
Cymwys B	42,576	19.44	29.16
Rheolwr Grŵp			
Datblygu	44,458	20.30	Ddim yn gymwys
Cymwys A	45,791	20.91	“
Cymwys B	49,284	22.50	“
Rheolwr Ardal			
Datblygu	52,194	23.83	Ddim yn gymwys
Cymwys A	53,758	24.55	“
Cymwys B	57,252	26.14	“

ATODIAD B

ROLAU YMLADD TÂN - CYFRADDAU CYFLOG O'R 1af O ORFFENNAF 2017 (SYSTEM DDYLETSWYDD YN ÔL Y GALW)

	(1) £ i bob Blwyddyn	(2) £ i bob Blwyddyn	(3) £ i bob Awr	(4) £ i bob achlysur
Ymladdwr Tân				
Hyfforddai	2,246	1,123	10.26	3.94
Datblygu	2,339	1,170	10.68	3.94
Cymwys	2,993	1,497	13.67	3.94
Rheolwr Criw				
Datblygu	3,182	1,591	14.53	3.94
Cymwys	3,319	1,659	15.15	3.94
Rheolwr Gwylfa				
Datblygu	3,391	1,695	15.48	3.94
Cymwys A	3,485	1,742	15.91	3.94
Cymwys B	3,711	1,856	16.95	3.94
Rheolwr Gorsaf				
Datblygu	3,860	1,930	17.63	3.94
Cymwys A	3,976	1,988	18.16	3.94
Cymwys B	4,258	2,129	19.44	3.94
Rheolwr Grŵp				
Datblygu	4,446	2,223	20.30	3.94
Cymwys A	4,579	2,290	20.91	3.94
Cymwys B	4,928	2,464	22.50	3.94
Rheolwr Ardal				
Datblygu	5,219	2,610	23.83	3.94
Cymwys A	5,376	2,688	24.55	3.94
Cymwys B	5,725	2,863	26.14	3.94

Mae Colofn 1 yn dangos y tâl cadw blynyddol llawn (10% o'r cyflog blynyddol llawn amser sylfaenol fel y nodwyd o fewn Atodiad A)
Mae Colofn 2 yn dangos y tâl cadw i weithwyr ar y system ddyletswydd gyda'r dydd (5% o'r cyflog blynyddol llawn amser sylfaenol fel y nodwyd o fewn Atodiad A)
Mae Colofn 3 yn dangos y gyfradd yn ôl yr awr am waith a ymgymerwyd.
Mae Colofn 4 yn dangos y taliad amharu fesul galwad.

ATODIAD C

ROLAU RHEOLI PENODOL - CYFRADDAU CYFLOG O'R 1af O ORFFENNAF 2017

	Sylfaenol blynyddol £	Cyfradd sylfaenol yn ôl yr awr £	Cyfradd goramser £
Ymladdwr Tân (Rheoli)			
Hyfforddai	21,336	9.74	14.61
Datblygu	22,224	10.15	15.23
Cymwys	28,437	12.99	19.49
Rheolwr Criw (Rheoli)			
Datblygu	30,225	13.80	20.70
Cymwys	31,528	14.40	21.60
Rheolwr Gwylfa (Rheoli)			
Datblygu	32,210	14.71	22.07
Cymwys A	33,105	15.12	22.68
Cymwys B	35,256	16.10	24.15
Rheolwr Gorsaf (RHEOLI)			
Datblygu	36,672	16.75	25.13
Cymwys A	37,773	17.25	25.88
Cymwys B	40,447	18.47	27.71
Rheolwr Grŵp (RHEOLI)			
Datblygu	42,235	19.29	**Ddim yn gymwys**
Cymwys A	43,501	19.86	“
Cymwys B	46,820	21.38	“

*(95% o'r cyflog blynyddol sylfaenol i ymladdwyr tân perthnasol fel y nodwyd o fewn Atodiad A)

Atodiad D

STAFF ANWEITHREDOL - CYFRADDAU CYFLOG O'R 1af O ORFFENNAF 2017

	£ y flwyddyn
Cyfartalog i Weithredydd Rheoli Tân	
Yn ystod y chwe mis cyntaf	19,128
Ar ôl chwe mis ac yn ystod yr ail flwyddyn	19,975
Yn ystod y drydedd flwyddyn	20,924
Yn ystod y bedwaredd flwyddyn	21,953
Yn ystod y pumed flwyddyn	23,910
Cyfartalog i Weithredydd Rheoli Tân Arweiniol	25,606
Cyfartalog i Uwch Weithredydd Rheoli Tân	
Yn ystod y flwyddyn gyntaf mewn rheng	26,262
Yn ystod Ail flwyddyn mewn rheng	27,258

YMLADDWYR TÂN IFANC - CYFRADDAU CYFLOG O'R 1af O ORFFENNAF 2017

	£ y flwyddyn
Oed 16	10,390
Oed 17	11,164
Oed 18	22,459

ATODIAD 4

COLOFN GYFLOG CGC 2016-17 A 2017/18 (STAFF LLYFR GWYRDD)

SCP	1 Eb 16	1 Eb 17
6	£14,514	£15,014
7	£14,615	£15,115
8	£14,771	£15,246
9	£14,975	£15,375
10	£15,238	£15,613
11	£15,507	£15,807
12	£15,823	£16,123
13	£16,191	£16,491
14	£16,481	£16,781
15	£16,772	£17,072
16	£17,169	£17,419
17	£17,547	£17,772
18	£17,891	£18,070
19	£18,560	£18,746
20	£19,238	£19,430
21	£19,939	£20,138
22	£20,456	£20,661
23	£21,057	£21,268
24	£21,745	£21,962
25	£22,434	£22,658
26	£23,166	£23,398
27	£23,935	£24,174
28	£24,717	£24,964
29	£25,694	£25,951
30	£26,556	£26,822
31	£27,394	£27,668
32	£28,203	£28,485
33	£29,033	£29,323
34	£29,854	£30,153
35	£30,480	£30,785
36	£31,288	£31,601
37	£32,164	£32,486
38	£33,106	£33,437
39	£34,196	£34,538
40	£35,093	£35,444
41	£36,019	£36,379
42	£36,937	£37,306
43	£37,858	£38,237
44	£38,789	£39,177
45	£39,660	£40,057
46	£40,619	£41,025
47	£41,551	£41,967
48	£42,474	£42,899
49	£43,387	£43,821

ATODIAD 5

Echdyniad

Cyd Bwyllgor Cenedlaethol ar gyfer Gweithwyr Crefft a Chysylltiol Awdurdodau Lleol

GWEITHWYR CREFFT A CHYSYLLTIOL

Mae'r tâl ar gyfer gweithwyr crefft a chysylltiol o'r wythnos dâl gan gynnwys **1af o Ionawr 2016** fel a ganlyn:

Dynodiad	**1af o Ebrill 2017 £ Yr Wythnos**	**1af o Ebrill 2017 £ Y Flwyddyn**
Peiriannydd a Thrydanwr	£327.41	£17,072

Prentisiaid Peiriannu a Thrydanwyr

Prentisiaid Peiriannu a Thrydanol yn dilyn cwrs hyfforddi cydnabyddedig. Mae'r gyfradd fesul wythnos a chyfradd cyfrifo goramser a thaliadau premiwm eraill o'r wythnos dâl gan gynnwys **1 Ebrill 2016** fel a ganlyn (dynodir canran y gyfradd llawn amser mewn cromfachau).

Oed ar Fynediad	**Blwyddyn Gyntaf**	**Ail Flwyddyn**	**Trydedd Flwyddyn**	**Pedwaredd Flwyddyn**
	1af o Ebrill 2017	**1af o Ebrill 2017**	**1af o Ebrill 2017**	**1af o Ebrill 2017**
16 oed	£180.07 (55%)	£229.19 (70%)	£294.67 (90%)	£311.04 (95%)
17 oed	£180.07 (55%)	£261.93 (80%)	£294.67 (90%)	£311.04 (95%)
18 oed +	£261.93 (80%)	£278.30 (85%)	£294.67 (90%)	£311.04 (95%)

ATODIAD 6

YMLADDWYR TÂN CYNORTHWYOL AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU

Cyfansoddir cyflog Ymladdwyr Tân Cynorthwyol o'r cydrannau canlynol:-

- Tâl cadw o £1,000 y flwyddyn (a delir mewn rhandaliadau chwarterol o £250) ar gyfer argaeledd y tri mis blaenorol
- £1,000 y flwyddyn am bresenoldeb hyfforddi (a delir mewn rhandaliadau chwarterol o £250) am bresenoldeb a chydymffurfiaeth â gofynion hyfforddi
- Dyrchafiad o £250 y flwyddyn i yrwyr LGV (i gynnwys EDRT am un diwrnod mewn blwyddyn)

Felly, (yn amodol ar argaeledd wrth gwrdd â gofynion y tâl cadw a mynychu'r hyfforddiant chwarterol):

- Bydd Ymladdwr Tân Cynorthwyol yn derbyn £2,000 y flwyddyn
- Bydd Ymladdwr Tân Cynorthwyol sydd hefyd yn EDRT (gyrrwr ymateb LGV) yn derbyn £2,250 y flwyddyn
- Bydd Ymladdwr Tân Cynorthwyol sydd dim ond yn EDRT (gyrrwr Ymateb LGV) yn derbyn £1,250 y flwyddyn

Yn ychwanegol, mae modd i bersonél y SDdG a'r SDd AA o bob rheng (hyd at ac i gynnwys Rheolwr Ardal) hefyd ymgeisio am “Gytundeb Hydwythedd”. Bydd y cyflog rhwng £2,000 a £3,250, yn dibynnu ar eich cronfeydd sgiliau.